# Gwybod faint y dylai'r biliau ynni fod

Sut y gallai mesurydd clyfar fod o fudd i chi a'r person rydych chi'n ei gefnogi



gofalwyr CYMRU
gwneud bywyd yn well i ofalwyr

mesuryddion clyfar
Ymunwch â'r chwyldro ynni

## Mesuryddion clyfar a gofalwyr

Rydyn ni yn Ynni Clyfar GB yn gweithio gyda Carers UK i helpu gofalwyr i ddysgu mwy am fesuryddion clyfar, a sut y gallen nhw fod o fudd iddyn nhw a'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.

## Gallai mesurydd clyfar fod o fudd i chi a'r person rydych chi'n ei gefnogi

Ar hyn o bryd, mae llawer ohonon ni'n poeni am filiau ynni uwch. A phan fyddwch yn gofalu am rywun, efallai y bydd gennych eu bil nhw i feddwl amdano hefyd. Gallai mesurydd clyfar fod o gymorth.

Mae sgrîn ynni cartref yn dod gyda mesurydd clyfar. Mae'r sgrîn ynni cartref weithiau yn cael ei alw'n IHD. Mae'n dangos faint o ynni y mae aelwyd yn ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio.

Mae hynny'n golygu eich bod yn gwybod faint y dylai eich biliau ynni fod, a allai dynnu rhywfaint o'r dyfalu allan o gadw'r gyllideb i chi a'r person rydych chi'n ei gefnogi.

Gallai'r un wybodaeth hefyd eich helpu chi, neu'r person rydych chi'n ei gefnogi, i benderfynu pryd i droi'r gwres i fyny, er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn gynnes. Neu gallai eich helpu i weld pryd mae rhywbeth wedi'i adael ymlaen ar ddamwain — fel y gallwch sicrhau nad yw'r person rydych chi'n ei gefnogi yn defnyddio ynni drwy gamgymeriad.





## Gallai mesurydd clyfar helpu mewn ffyrdd eraill hefyd

Mae mesuryddion clyfar yn cofnodi faint o drydan neu nwy rydych chi'n ei ddefnyddio, yn union fel eich mesuryddion presennol. Ond gyda mesurydd clyfar, mae'r darlleniadau'n cael eu hanfon yn syth at eich cyflenwr ynni mewn ffordd ddiogel. Felly, nid oes angen i chi — na'r person rydych chi'n ei gefnogi — ddringo ysgol neu gropian i mewn i gwpwrdd i ddarllen y mesurydd. Mae hynny'n golygu un eitem yn llai ar eich rhestr brysur o bethau i'w gwneud.

> **"Byddwn yn argymell i bobl eraill a allai fod yn gofalu am berthynas gael mesurydd clyfar. Gallaf gadw golwg ar y biliau. Mae'r ffaith bod y cyfan wedi'i wneud yn ei helpu i beidio â phoeni."**
>
> Sarah, gofalwr i'w mam Jean



## Sut mae mesuryddion clyfar yn gweithio

**1.** Mae'r mesurydd clyfar yn cofnodi eich defnydd o ynni, wrth i chi ei ddefnyddio.

**2.** Mae'r IHD yn dangos faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio, a faint rydych chi wedi'i wario.

**3.** Mae'r mesurydd clyfar yn anfon darlleniadau yn awtomatig at eich cyflenwr ynni.

**4.** Rydych chi'n cael bil sy'n seiliedig ar faint o nwy a thrydan rydych chi wedi defnyddio

Nid oes gan fesuryddion clyfar gysylltiad i'r rhyngrwyd. Nid oes gan y sgrîn ynni cartref gysylltiad i'r rhyngrwyd ychwaith. Felly does dim angen i chi gael cysylltiad rhyngrwyd er mwyn cael un.

Yr unig bobl sy'n gallu gweld faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio yw chi, y person rydych chi'n ei gefnogi, a'u cyflenwr ynni.

Yr unig wybodaeth sy'n cael ei hanfon at gyflenwyr ynni yw faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio a phryd. Dydy cyflenwyr ddim yn gallu gweld beth sydd wedi'i blygio i mewn, neu pryd mae'r peiriant golchi ymlaen!

## Mesuryddion clyfar rhagdalu

Os yw'r person rydych chi'n ei gefnogi ar fesurydd rhagdalu, gallant gael mesurydd clyfar. Gyda mesurydd clyfar rhagdalu, gallwch chi ychwanegu credyd ar-lein neu drwy ffôn symudol yn ogystal ag mewn siop. Mae'r mesurydd clyfar rhagdalu yn dod gyda sgrîn ynni cartref sy'n dangos pryd mae'n amser i ychwanegu credyd.



## Gweld faint o ynni rydych chi wedi'i ddefnyddio

Mae'r sgrîn ynni cartref yn dangos faint o ynni y mae'r person rydych chi'n ei gefnogi wedi defnyddio a faint mae wedi'i gostio. Gallwch wirio faint maen nhw wedi defnyddio heddiw, yr wythnos yma neu'r mis yma.

Os oes gan y person rydych chi'n ei gefnogi fesurydd clyfar dim ond ar gyfer nwy, bydd y sgrîn ynni cartref yn dangos dim ond faint o nwy maen nhw wedi defnyddio. Os oes ganddynt fesurydd clyfar dim ond ar gyfer trydan, bydd y sgrîn ynni cartref yn dangos dim ond faint o drydan maen nhw wedi defnyddio.

Gall mesuryddion clyfar helpu aelwydydd i arbed ynni, ond nid yw'n awtomatig. Mae llawer o ofalwyr yn cael y sgrîn ynni cartref yn ddefnyddiol. Mae'n rhoi rhagor o wybodaeth i chi ac i'r person rydych chi'n ei gefnogi am eu defnydd o ynni. Gan helpu'r ddau ohonoch i weithio allan ble i arbed ynni ac arian.

Er enghraifft, dywedodd Sarah, sy'n gofalu am ei mam Jean:

> **"Mae'n eich helpu i weld mewn amser real faint o bŵer rydych chi'n ei ddefnyddio. Os yw rhywbeth wedi cael ei adael ymlaen ar ddamwain, efallai na fyddwch yn sylwi arno am gryn amser ond byddech yn sylwi arno ar y sgrîn ynni cartref. Mae'n gwneud Mam yn fwy annibynnol."**




Mae'r llun yma yn dangos sut mae sgrîn ynni cartref safonol yn edrych.

## Sgrîn ynni cartref hygyrch (AIHD)

Mae rhai cyflenwyr ynni hefyd yn cynnig fersiwn hygyrch o'r sgrîn ynni cartref, sydd weithiau'n cael ei alw'n AIHD. Mae ganddynt nodweddion a allai eich helpu chi neu'r person rydych chi'n ei gefnogi. Er enghraifft, mae ganddynt fotymau mawr a gallant ddarllen gwybodaeth yn uchel.

Gallai AIHD fod yn ddefnyddiol os ydych chi, neu'r person rydych chi'n ei gefnogi, yn:

- ddall neu â golwg rhannol
- cael trafferth defnyddio eich dwylo neu eich arddyrnau, neu'n
- profi anhawster gyda cholli cof

Gofynnwch i'ch cyflenwr ynni i gael gwybod mwy am sgrîn ynni cartref hygyrch.




Mae'r llun yma yn dangos sut mae sgrîn ynni cartref hygyrch safonol yn edrych.

## Sut i gael mesurydd clyfar

Mae mesuryddion clyfar yn cael eu gosod gan gyflenwyr nwy a thrydan. Maen nhw'n newid eich hen fesuryddion ac yn gwneud y cyfan yn ddiogel ac yn gadarn. Does dim cost ychwanegol i'r cwsmer.

**Dyma sut mae'n gweithio:**

1. Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i drefnu amser a dyddiad i'r mesurydd clyfar gael ei osod.

   Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwch wneud yr apwyntiad ar gyfer y person rydych chi'n ei gefnogi, ond efallai y bydd y cyflenwr yn gofyn rhai cwestiynau diogelwch.

   Gallwch wneud yn siŵr ei fod ar amser pan allwch chi fod yno hefyd. Dylai'r cyflenwr wirio a oes gan y cwsmer — y person rydych chi'n ei gefnogi — unrhyw anghenion penodol, er enghraifft, os oes angen i ofalwr fod yn bresennol.

2. Bydd y person sy'n gosod y mesurydd yn cyrraedd ar yr amser a drefnwyd ac yn dangos i chi, neu'r person rydych chi'n ei gefnogi, ei gerdyn adnabod. Os nad ydyn nhw'n dangos y cerdyn adnabod i chi, gallwch ofyn am weld e.

3. Byddan nhw'n datgysylltu'r mesurydd presennol ac yn rhoi mesurydd clyfar yn ei le.

4. Pan fydd y mesurydd clyfar yn gweithio, dylai'r person sy'n gosod y mesurydd ddangos i chi a'r person rydych chi'n ei gefnogi sut i ddefnyddio'r sgrîn ynni cartref.

Ni all rhai cartrefi gael mesurydd clyfar eto ond byddant yn gallu cael un cyn diwedd y cyfnod cyflwyno. Gall y cyflenwr ynni ddweud wrthych a all y person rydych chi'n ei gefnogi gael un ai beidio. Gallant hefyd ddweud wrthych chi pa mor fuan y gall gael ei osod.



**PWYSIG**

- bydd angen i rywun fod adref pan gaiff y mesuryddion clyfar eu gosod. Efallai chi, y person rydych chi'n ei gefnogi, neu'r ddau ohonoch

- os ydych chi, fel gofalwr, wedi rhoi gwybod i'r cyflenwr bod angen i chi fod yn bresennol pan fydd y mesurydd clyfar yn cael ei osod, ac am unrhyw reswm nad ydych yno, mae'n rhaid i'r cyflenwr beidio â gosod y mesurydd clyfar

- os yw'r mesuryddion nwy a thrydan yn cael eu newid ar yr un pryd, bydd yn cymryd tua dwy awr. Os mai dim ond un mesurydd sy'n cael ei newid, efallai y bydd yn gyflymach

- bydd y cyflenwad ynni'n cael ei ddiffodd am gyfnod byr er mwyn gosod y mesurydd clyfar. Os oes angen ynni ar y person rydych chi'n ei gefnogi i'w helpu gyda chyflwr iechyd, rhowch wybod i'r cyflenwr ynni pan fyddwch yn trefnu'r apwyntiad



## Helpu chi i helpu'r person rydych chi'n ei gefnogi

Gyda mesurydd clyfar, gallech chi — a'r person rydych chi'n ei gefnogi — gadw llygad agosach ar eich defnydd o ynni, a allai eich helpu gyda chyllideb y cartref. Ond gwyddom y gallai llawer o ofalwyr elwa o gymorth pellach o ran delio â chyflenwyr ynni.

## Bod yn drydydd parti a enwir

Os oes angen i chi wneud penderfyniadau ar ran y person rydych chi'n ei gefnogi a thalu biliau drostynt, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi fod yn drydydd parti penodol ar ei gyfrif. Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i gael gwybod beth mae angen i chi ei wneud.

## Gosod mesurydd clyfar yn ddiogel

Er mwyn diogelu cwsmeriaid sy'n agored i niwed, mae llawer o gyflenwyr ynni yn defnyddio cynllun cyfrinair. Pan fyddwch yn trefnu apwyntiad gosod, gallwch gytuno ar gyfrinair gyda'r cyflenwr. Yna, dylai'r person sy'n gosod y mesurydd ddweud y cyfrinair hwnnw cyn i chi — neu'r person rydych chi'n ei gefnogi — roi mynediad iddynt i'r tŷ.





## Cofrestrwch ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR)

Efallai y byddai hefyd yn syniad da i roi'r person rydych chi'n ei gefnogi ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR).

Mae'r PSR yn system wirfoddol am ddim sy'n golygu bod y cwsmeriaid mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth cywir gan gyflenwyr ynni. Gallai hynny gynnwys rhybudd ymlaen llaw am unrhyw doriadau cynlluniedig i'r cyflenwad neu flaenoriaeth os bydd diffyg gyda'r cyflenwad.

Unwaith y bydd rhywun ar y PSR, efallai y bydd modd hefyd iddynt ofyn am filiau fformat mawr neu braille, neu ofyn i gyfriflenni neu filiau gael eu hanfon atoch chi yn hytrach na nhw — neu ar yr un pryd â nhw.

Os ydych chi'n meddwl y byddai bod ar y PSR yn helpu'r person rydych chi'n ei gefnogi, cysylltwch â'i gyflenwr ynni am fwy o wybodaeth.

## Mwy o wybodaeth

Mae llawer mwy o wybodaeth ar wefan Carers UK, gan gynnwys awgrymiadau i ofalwyr ar ddefnyddio gwasanaethau neu drefnu atwrneiaeth: carersuk.org/tips-from-carers

## Dyma beth i'w wneud nesaf

Chwiliwch '**get a smart meter**' heddiw. Neu cysylltwch â chyflenwr ynni'r person rydych chi'n ei gefnogi a gofynnwch a allant gael un.

Fe ddewch o hyd i fanylion cyswllt ar eu bil. Neu i ddod o hyd i rifau rhadffôn a ffôn testun rhai o'r cyflenwr, ewch i: smartenergyGB.org/supplier-free-phone-numbers

Mae Carers UK yn elusen sy'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn Yr Alban (SC039307) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (864097).

# Helpu chi i helpu'r person rydych chi'n ei gefnogi gyda mesurydd clyfar

gofalwyr CYMRU
gwneud bywyd yn well i ofalwyr

mesuryddion clyfar
Ymunwch â'r chwyldro ynni

Deunyddiau'n gywir ym mis Ebrill 2022